

# Newyddion

[www.aber.ac.uk/cy/ibers](http://www.aber.ac.uk/cy/ibers)

## CEFFYLAU

Hydref 2008

### Prosiectau Ymchwil Myfyrwyr

Erbyn hyn mae myfyrwyr y flwyddyn olaf wedi gorffen eu traethodau ymchwil a thro myfyrwyr yr ail flwyddyn yw hi nawr i ddechrau ar eu rhai hwy. Cafwyd llawer o syniadau gwych eleni gyda 4 traethawd ymchwil yn cael eu dewis fel ymgeiswyr posibl ar gyfer cystadleuaeth Traethawd y Flwyddyn 'Equivalent' - cystadleuaeth a gynhelir ar draws yr holl Brifysgolion/Colegau sy'n rhedeg cyrsiau'n ymwneud â cheffylau yn y DU.

Un o'r prosiectau mwyaf cyffrous oedd un a reolwyd gan Lizzie Rapkin a oedd yn cydweithio â Russell Guire o Centaur Biomechanics i ymchwilio i effeithiau blinder ar frasgam naid yn ystod cwrs traws gwlad. Symbylwyd syniad Lizzie gan y newid diweddar mewn cystadlaethau 3 diwrnod, o'u fformat hir (gan gynnwys ffyrdd, llwybrau a rasys ffos a pherth) i'w fformat byr (heb ffyrdd, llwybrau a rasys ffos a pherth) oherwydd pryderon cystadluwyr am effeithiau blinder ar berfformiad a diogelwch cheffylau. Gwnaeth Lizzie fideo o 10 ceffyl ar 2 achlysur, a hwythau naill ai newydd gwblhau, neu heb gwblhau, rhan a redwyd dros ffyrdd, llwybrau, a ras ffos a pherth, er mwyn efelychu'r hen gystadlaethau hir a'r rhai newydd byr eu fformat. Marciwyd y cheffylau trwy



*Un o geffylau Lizzie'n cael ei farcio, a Russell Guire o Centaur Biomechanics yn gwneud fideo ohono i'w ddadansoddi ymhellach gyda meddalwedd Equinalysis.*

roi marciau ar y croen uwchben cymalau aelodau penodol o'r corff a defnyddiwyd m e d d a l w e d d 'Equinalysis' i ddigido delwedd symudol y goes ôl fel bod modd mesur ongl y gar. Gan ddefnyddio'r newidiadau yn ongl y gar fel arwydd o flinder, mae canlyniadau Lizzie yn sicr yn dangos fod rheswm da dros y newid o'r hen gystadlaethau i rai 3 diwrnod byr eu fformat.

Sefydliad y Gwyddorau Biologol, Amgylcheddol a Gwledig  
**IBERS ABERYSTWYTH**

### Rhestr Cyrsiau

#### MSc

Gwyddor Cheffylau (D391)

#### Diploma Uwchraddedig

Gwyddor Cheffylau

#### Tystysgrif Uwchraddedig

Maetheg Cheffylau

Bridio Cheffylau a Rheoli Bridfeydd

#### Gradd BSc

D322 Gwyddor Cheffylau

CD64 Gwyddor Chwaraeon a Cheffylau

D325 Astudiaethau Cheffylau (1-flwyddyn ychwanegol)

#### Gradd Sylfaen

D324 FdSc Astudiaethau Cheffylau

#### Diploma Genedlaethol Uwch

1HND DGU Astudiaethau Cheffylau a Busnes

423D DGU Astudiaethau Cheffylau

#### Cyswilt

Carol Green:

Tony O'Regan:

(01970) 624471

[cgg@aber.ac.uk](mailto:cgg@aber.ac.uk)

[tor@aber.ac.uk](mailto:tor@aber.ac.uk)

### Taith Geffylau Lwyddiannus arall i Newmarket.

**Y '2000 Guineas' a'r croeso yng Nghre Dalham Hall Sheik Mohammed oedd uchafbwyntiau'r daith geffylau eleni eto.** Ar y daith hefyd treuliwyd amser

yn gwyllo'r cheffylau dwyflwydd oed yn ymbaratoi ar gyfer arwerthiant ar y Rowley Mile ac allan yn carlamu gyda Declan Daly. Buont yn ymweld hefyd â Gre Tremlows a chanolfan 'Al', labordai Fforensig Cheffylau, y Plantation Stud, Amgueddfa Rasio Cheffylau, taith ac arwerthiannau Tattersalls (gan gynnwys te prynhawn hyfryd iawn) a'r Gre Genedlaethol. Heb os nac oni bai roedd yn 4 diwrnod llawn iawn, ond yn bleser pur i bawb.

*Ffotograff grŵp ym maeau dadlwytho cesig yn Darley Stud lle cawsom hefyd ginio ffantastig!*



*Gwelwyd rhai cesig ac ebolion braf pan fu'r daith astudio cheffylau yn ymweld â'r Plantation Stud, Newmarket - er y ceisiadau mynych ni fedrem ddod ag un adref gyda ni yng nghefn y bws mini!*



# Llwyddiant Ysgubol i Dimau Marchogaeth Aberystwyth

## Dathlodd Tîm Marchogaeth Aberystwyth flwyddyn hynod o lwyddiannus, gyda llwyddiannau i dimau A a B yn Huntley, Cimla (Abertawe) a 'Argae House' (Caerdydd).

Dathlodd Tîm Marchogaeth Aberystwyth flwyddyn hynod o lwyddiannus, gyda llwyddiannau i dimau A a B yn Huntley, Cimla (Abertawe) a 'Argae House' (Caerdydd). O ganlyniad, cymhwysodd y ddau dîm ar gyfer y rowndiau rhanbarthol yn Lerpwl. Roedd tîm B yn llwyddiannus gan gadw ei record ddiuro i fynd ymlaen i bencampwriaethau Cenedlaethol Cymdeithas Chwaraeon Prifysgolion Prydain (BUSA) a dyfarnwyd medalau efydd iddynt - llongyfarchiadau! Doedd dim lwc yn weddill i Dîm A yn rowndiau rhanbarthol wrth iddynt ddod yn ail o un pwynt. Serch hynny, cymhwysodd Jess Haffner fel enigolyn gan ddod yn 15fed yn y Pencampwriaethau Cenedlaethol a

dychwelodd Bea Meitner adref i dderbyn llythyr yn ei gwahodd i gam nesaf y broses ddedhol ym Mhencampwriaethau Marchogol Prifysgolion y Byd (WUEC) sydd i'w

*Tîm A Prifysgol Aberystwyth yn fuddugol - o'r chwith Rachel Sturges, Jess Haffner, Bea Meitner (capten) a Monika Lauber.*

cynnal yn Algeria ym mis Hydref; 3 marchogwr yn unig a ddewisir ac mae Bea wedi cyrraedd y 12 olaf. Bydd 12 darpar gystadleuydd y DU yn cael eu monitro yn ystod cystadlaethau'r haf a'r sesiynau hyfforddi, a bydd y 3 marchogwr gorau yn cael eu dewis i gynrychioli'r DU. Cafodd Bea ddechreuad penigamp yn y cyntaf o'r digwyddiadau hyn sef Cwpan Cenedloedd Marchogaeth Myfyrwyr (SRNC) ym Munster, Yr Almaen lle dyfarnwyd yr aur i dîm y DU a Bea yn cipio'r fedal aur unigol.

*Llwyddiant clodwiw - Bea Meitner yn y broses o ennill y Fedal Aur ym mhencampwriaethau'r SRNC yn yr Almaen.*



*Y buddugwyr - tîm aur buddugol y DU ym mhencampwriaethau'r SRNC yn yr Almaen. Gwelir Bea Meitner, myfyrwraig Gwyddor Ceffylau MSc yma yn Aberystwyth, ar ochr dde bellaf y llun.*



## Datblygiadau ymchwil newydd a chyffrous

**Gwahoddwyd Dr Mina Davies Morel yn ddiweddar i fynychu Agoriad Mawreddog Gre Genedlaethol yr Almaen yn Neustadt Dosse, ger Berlin - a oedd yn ddigwyddiad hynod o ysblennydd mewn ardal hardd â thywydd teg.** Ar yr un adeg, cafwyd trafodaethau â'r Ysgol Filfeddygaeth yn Fienna, Gre Genedlaethol yr Almaen, yr Ysgol Filfeddygaeth yn Lyon, yr Ysgol Filfeddygaeth ym Merlin, Sefydliad Gwyddor Ceffylau Neustadt Dosse a Greoedd Cenedlaethol Ffrainc lle penderfynwyd gwneud cais am sawl miliwn o bunnoedd i'r UE i gyllido datblygiad rhwydwaith ymchwil a fyddai'n arbenigo mewn Atgennedlu Ceffylau. Os byddwn yn llwyddiannus, bydd hyn yn gyfle gwych i sicrhau cynlluniau cyfnewid i fyfyrwyr rhwng yr holl sefydliadau cyfrannol ar sawl lefel hyd at PhD.

*The German National Stud at Neustadt Dosse*



## Canolfan Geffylau Llust mor brysur a llwyddiannus ag erioed

**Mae Canolfan Geffylau Llust wedi parhau i gynnal y cystadlaethau neidio ceffylau a hyfforddiant arferol dros y gaeaf, a'r cyfan wedi'u trefnu a'u cynnal gan fyfyrwyr HND a myfyrwyr gradd Sylfaen wrth iddynt ddilyn eu modiwl Rheoli Digwyddiadau.**

Roedd y rhain yn wirioneddol llwyddiannus a gwnaeth y myfyrwyr yn dda iawn, a'u sgiliau trefnu'n ennill iddynt farciau rhagorol - llongyfarchiadau!

Llust hefyd oedd man cyfarfod para hyfforddi a phencampwriaeth hyfforddiant y gaeaf. Enillwyd y bencampwriaeth gan Paula Clark yn marchogaeth Spock, un o geffylau'r Brifysgol, a'r ail yn y gystadlaeth oedd Amanda Say yn marchogaeth Seamus, un arall o geffylau'r brifysgol - llongyfarchiadau i'r ddwy ohonoch! Bu Paula wrthi'n ymarfer yn galed yn ystod y 3 blynedd ddiwethaf yng Nghanolfan Geffylau Llust ac oherwydd cryfder ei pherfformiad ym Mhencampwriaethau Cymru eleni fe'i dewiswyd i gystadlu yn y Hartpury CCI\*\*\* ym mis Gorffennaf - llongyfarchiadau Paula a phob lwc!

Yn ogystal â chystadlaethau, mae Llust wedi cynnal ei chyfres arferol o ddigwyddiadau hyfforddi, a'r uchafbwyntiau oedd arddangosiad a gwersi gan Spencer Wilton - bob amser yn boblogaidd iawn. Hefyd, cynhaliodd Jan Goldsmith FBHS weithdy para-hyfforddi a oedd yn agored i feirniaid, hyfforddwyr a marchogwyr. Llust hefyd oedd y man cyfarfod ar gyfer sesiwn hyfforddi Hyfforddwyr Cymru dan ofal Patrick Print, Cadeirydd Cymdeithas Ceffylau Prydain (BHS). Mae'n rhagorol cael hyfforddwyr mor enwog a phrofiadol yn defnyddio Llust yn rheolaidd ac mae'n wych eu bod i gyd mor awyddus i'r myfyrwyr gymryd rhan, naill ai yn sesiynau neu trwy wyllo neu gynnal help.



*Paula Clark yn marchogaeth ceffyl y Brifysgol, Spock - enillydd para-bencampwriaeth gaeaf hyfforddiant Cymru*